

# GAEC 1: Dŵr – Sefydlu Lleiniau Clustogi



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

Rhagfyr 2014

[www.cymru.gov.uk](http://www.cymru.gov.uk)

**Amcan y gofyniad hwn yw diogelu dŵr wyneb rhag cael ei lygru gan nitradau, ffosfforws, cynhyrchion diogelu planhigion a charthion pathogenig drwy greu lleiniau clustogi. Gall y rhain gael effaith ddifrifol ar iechyd ac amrywiaeth dyfroedd croyw a morol, gan gynnwys y planhigion a'r anifeiliaid sy'n byw ynddyn nhw. Mae gofyn cynnal y safon hon ar bob tir amaethyddol yng Nghymru.**

## Diffniad

- Mae dŵr wyneb yn cynnwys dyfroedd arfordirol, aberoedd, camlesi, llynnoedd, pyllau dŵr a chyrsgau dŵr fel afonydd, nentydd a ffosydd sydd â dŵr ynddynt sy'n llifo'n rhydd. Mae'n cynnwys hefyd ffosydd sy'n sych am gyfnod a ffosydd cudd.

## Prif ofynion

- Peidiwch â gwasgaru gwrtaith anorganig na gwrtaith artiffisial o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.
- Ni ddylech ddefnyddio Cynhyrchion Diogelu Planhigion o fewn 2 fetr i ddŵr wyneb.
- Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) o fewn 10 metr i ddŵr wyneb (6 metr os ydych chi'n defnyddio offer chwalu tail manwl, e.e. system chwistrellu, system 'traling shoe' neu far diferion).
- Peidiwch â gwasgaru gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) o fewn 50 metr i dwll turio, pistyll a ffynnon.
- Peidiwch â mynd ati i wneud unrhyw borthi atodol o fewn 10 metr i ddŵr wyneb.

## Archwiliadau maes

- Gofalu nad oes gwrtaith anorganig na gwrtaith organig (gan gynnwys tail a slyri) na phlaladdwyr wedi'u gwasgaru ar leiniau clustogi.
- Cadarnhau lleoliad unrhyw ddŵr wyneb a thyllau turio, pistyll a ffynhonnau ar eich tir eich hun a thir cyfagos cyn mynd ati i chwalu unrhyw wrtaith, cynhyrchion diogelu planhigion neu wneud unrhyw borthi atodol.
- Sicrhewch bod y safleoedd porthi atodol ddim o fewn 10 metr i'r dŵr wyneb.

## Arferion da

- Gofalwch fod lleiniau clustogi'n ddigon llydan i rwystro llif o'r tir a llygredd (gallai hynny olygu bod angen i'r llain glustogi fod yn lletach na'r gofyn).
- Paratowch, diweddarwch a chadwch fap o'r daliad sy'n dangos lleoliad y dŵr wyneb a'r lleiniau clustogi fel y gallwch, os bydd angen, ei roi i gontractwyr neu edrych arno cyn mynd ati i chwalu unrhyw wrtaith neu bladdwr neu fynd ati i wneud unrhyw borthi atodol.

## Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â:

Llywodraeth Cymru

Cyfoeth Naturiol Cymru

Gweler y daflen 'Cysylltiadau Defnyddiol' yn y pecyn hwn